Llwybr Un

# Gofal Cyn Cenhedlu
## Tîm Arbenigol

Os yw'r fenyw yn cynllunio beichiogrwydd ac mae ganddi hanes o broblemau iechyd cymhleth neu ddifrifol, gallwn ei chefnogi drwy'r llwybrau ac agor y drws i fagu plant.






Os ydyw'n cynllunio beichiogrwydd ac mae angen cymorth ychwanegol arni, gellir ei **hatgyfeirio at Arbenigwr Iechyd Meddwl Amenedigol**



Byddwn yn sicrhau **dull teuluol** ac yn cynnwys partneriaid cefnogol, aelodau'r teulu ac eraill pryd bynnag sy'n bosibl a phriodol.

Byddwn yn cynnig **amgylchedd diogel i archwilio ofnau a disgwyliadau** i sicrhau y gwneir **penderfyniad dysgedig ynghylch** beichiogrwydd a magu plant.

### Dylai'r adolygiad gynnwys:

**Hanes cynhwysfawr** gan gynnwys llunio, risgiau, ffactorau diogelu, rhwydwaith cymorth, materion rhwng cenedlaethau ac argymhellion llesiant

**Ystyried opsiynau presgripsiwn** a dosau meddyginiaeth yn ystod beichiogrwydd a thrafodaeth ynghylch y risg o atglafychu

Trafod y **risgiau a buddion o gymryd meddyginiaeth yn ystod beichiogrwydd a chyngor ar fwydo o'r fron**
Sut ydych chi'n teimlo heddiw?






Cymorth gyda chwblhau **cynllun 'Cael Teulu'** a allai gynnwys monitro cyflwr meddyliol, meddyginiaeth, ymyriadau seicolegol, cynllunio genedigaeth a gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau mamolaeth ac ymwelwyr iechyd.



Os bydd y fenyw yn mynd ymlaen i ddod yn feichiog, bydd angen cynnig ei **hatgyfeirio at y Tîm Iechyd Meddwl Amenedigol Arbenigol.**